ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Scroll down for English version

21/04/20

Annwyl Ddisgyblion a Rhieni / Gwarchodwyr,

Gobeithio bod pawb yn eich teulu yn iach o ystyried ein sefyllfa bresennol. Gobeithio hefyd i chi gael cyfle i ymlacio ac i dreulio amser o ansawdd gyda'ch gilydd fel teulu dros wyliau'r Pasg? Hoffwn ddiweddaru rhai negeseuon pwysig gyda chi.

LLES DISGYBLION:
Byddwn yn parhau i gysylltu'n wythnosol gyda'n disgyblion i gyd. Serch hyn, os ydych yn teimlo yr hoffech drafod gyda'ch tiwtor neu eich 'oedolyn gofalgar' yn yr ysgol, plîs cysylltwch. Mae croeso hefyd i rieni gysylltu gyda ni os oes unrhyw bryder gennych am les eich plentyn. Defnyddiwch e-bost yr ysgol isod, neu fy e-bost gwaith i: DaviesS456@hwbcymru.net

Mae gwasanaeth cownsela yr 'Exchange' yn parhau i ddarparu cefnogaeth angenrheidiol yn ystod y cyfnod yma. Gweler y diweddariad ar ein safwe https://bit.ly/DiweddariadCOVID-19 am fanylion pellach, yn ogystal â ffynonellau cefnogaeth defnyddiol arall.

DYSGU O BELLTER:
Wrth ddechrau ar dymor yr haf, hoffwn rannu cynlluniau gyda chi i hwyluso'r broses heriol o ddysgu o bellter:

1. Mae amserlen wythnosol o osod gwaith yn ei le bellach (gwiriwch y 'bwrdd negeseuon' ar SMHW am fanylion). Y bwriad yw ceisio gwasgaru'r gwaith yn gyson ar draws yr wythnos i bob disgybl.
2. Yn dilyn adborth o'r bythefnos gyntaf o ddysgu o bellter gan ddisgyblion, rieni ac athrawon, mae'n glir bod gweithio o bellter yn gweithio ar ei orau pan mae:
   i) disgyblion a rhieni yn gwirio'r gwaith sydd angen ei gwblhau yn gyson ar SMHW
   ii) gan ddisgyblion drefn pendant i'w dydd ysgol – bydd yr amserlen newydd yn cefnogi hyn;
   iii) disgyblion mewn cyswllt cyson gyda'u hathrawon pan maent yn wynebu anhawster gyda'r gwaith

Wrth gwrs mae'r uchod yn ddibynnol ar y mynediad sydd gennych i adnoddau digidol er mwyn gallu cwblhau'r gwaith. Rydym yn barod wedi 'benthyg' nifer fawr o gliniaduron i ddisgyblion ac os oes angen cefnogaeth tebyg arnoch – cysylltwch gyda ni yn syth drwy e-bostio'r ysgol ar y cyfeiriad isod neu wrth gysylltu gyda Mrs Nerys Vaughan gyda'ch cais: VaughanN9@hwbcymru.net

Gweler y diweddariad ar ein safwe ar gyfer lawrlwytho'r fersiwn diweddaraf o 'Microsoft Office 365', sydd yn cynnwys Microsoft Word, Excel, PowerPoint a mwy, heb unrhyw gost.

Serch yr anawsterau, mae yna gyfleoedd hefyd i wella ein medrau dysgu anibynnol ymhellach drwy ddyfalbarhau a dod o hyd i ffordd o ddatrys y broblem – beth amdani? Wrth gwrs, os oes anawsterau gyda'r gwaith, danfonwch neges a bydd eich athrawon yn cysylltu 'nôl gyda chi i drafod.

CYMREICTOD:
Gwiriwch yr heriau Cymreictod mae Miss Clarke wedi gosod i chi yr wythnos hon ar SMHW. Bydd yn wych cael cyfle i drafod drwy'r Gymraeg gyda nifer o'ch rhieni yn dilyn eich dylanwad chi! Rieni, dyma gyfle gwych i chi ddysgu mwy o Gymraeg – ewch amdani gyda'ch plant!

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

PRYDAU YSGOL AM DDIM
Ni fydd talebau i'w defnyddio mewn archfarchnadoedd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, fel y crybyllwyd fel posibilrwydd. Yn hytrach, mae disgwyl i bob Awdurdod Lleol ddarparu system leol. O ddydd **Llun y 27/04/20**, byddwn yn darparu **pecyn bwyd wythnos** (bydd yn cynnwys bwyd y gallwch chi baratoi ar gyfer cinio bob dydd e.e. torth o fara, tin o diwna, ham, caws, creision, bisgedi...) i bob disgybl. Rydym yn cynnig dosbarthu rhain ar ddydd Llun bob wythnos. Os ydych am dderbyn pecyn bwyd wythnos, yna llenwch yr holiadur yma ar gyfer pob plentyn o Fryn Tawe rydych am wneud cais ar eu cyfer: https://bit.ly/DosbPYD-FSMSdelivery. **Os ydych yn barod yn derbyn pecynnau gennym, nid oes angen i chi lenwi'r holiadur eto.**

GOFAL PLANT ARGYFWNG:
Os oes angen i chi wneud cais ar gyfer **gofal plant argyfwng yn ystod yr wythnos**, yna cysylltwch gyda fy e-bost i - DaviesS456@hwbcymru.net er mwyn trafod ymhellach.

Yn ogystal, rydym yn cynnig **darpariaeth dros y penwythnos** ar gyfer gweithwyr critigol sydd yn **gweithio i'r gwasanaethau golau glas**, neu i **weithwyr gofal iechyd** (rhiant sengl neu deulu ble mae'r ddau riant yn gweithio yn y ddau faes yma). Os ydych yn rhagweld y byddwch yn gorfod defnyddio'r gwasanaeth yma, cwblhewch yr holiadur yma (https://bit.ly/GwarchodPenwythnos-WeekendChildcare) erbyn 12:00 ar y dydd Iau cyn y penwythnos mae angen gwarchod arnoch chi.

CYSYLLTU GYDA RHIENI:
Byddwn yn parhau i ddanfon negeseuon destun i'n rhieni gyda chyswllt i'r safwe er mwyn rhannu negeseuon pwysig – plîs gwiriwch ein safwe yn gyson am unrhyw ddiweddariadau. Dilynwch yr ysgol ar trydar: @bryntawe gan fod yna lu o wybodaeth yn cael ei rhannu yma hefyd, yn ogystal â'r cyfrifon di-ri sydd gan adrannau a blynyddoedd gwahanol. Cofiwch hefyd ein bod ar agor bob dydd o'r wythnos, ar hyn o bryd, yn darparu gofal plant argyfwng, felly mae yna groeso i chi ein ffonio i drafod yn ôl yr angen.

Mae staff yr ysgol wedi cynhyrchu dros 500 o fisgyrnau i gefnogi gweithwyr gofal iechyd yn ein cymunedau. Os ydych yn gwybod am rieni, neu weithwyr yn ein cymuned fyddai yn elwa o'r misgyrnau, yna cysylltwch gyda Miss Lindzi Miller am wybodaeth pellach: MillerL54@hwbcymru.net.

Yn olaf, y peth gorau y gallwn ni gyd ei wneud er mwyn chwarae ein rhan wrth frwydro'r feirws yw i ddilyn y cyngor diweddaraf gan y GIG (https://bit.ly/C-19GIG) a ICC (https://bit.ly/icc-coronavirus) – byddwch yn gyfrifol iawn er lles eich iechyd chi a'ch teuloedd yn y cyfnod digynsail a phryderus yma. Lawrlwythwch yr app dracio Covid-19 i gefnogi'r Llywodraeth i dracio achosion o Covid-19: https://covid.joinzoe.com/.

Cadwch yn ddiogel a chofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Wales School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

21/04/20

Dear Parents / Guardians,

I hope that everyone in your family is healthy given our current situation. I hope you also had the opportunity to relax and spend quality time together as a family over the Easter holidays. I would like to update you with some important messages.

PUPIL WELFARE:
We will continue to contact all our pupils on a weekly basis. However, if you feel you would like to discuss any concerns about your child's welfare, please get in touch. Use the school email below, or my work email: DaviesS456@hwbcymru.net

The Exchange counselling service continues to provide support during this period. See the update on our website: https://bit.ly/COVID-19Update for further details, as well as other useful sources of support.

DISTANCE LEARNING:
As we embark on the summer term, I would like to share with you some plans to facilitate the challenging process of distance learning:

1. A weekly schedule of work is now in place (please check the 'message board' on SMHW for details). The aim is to spread the workload consistently across the week for all pupils.
2. Following feedback from the first two weeks of distance learning from pupils, parents and teachers, it is clear that distance learning works best when:
   i) pupils and parents regularly check the work that needs to be completed on SMHW
   ii) pupils have a clear routine for their school day - the new timetable will support this;
   iii) pupils are in constant contact with their teachers when they encounter difficulty with the work

Of course the above is dependent on the access pupils have to digital resources to complete the work. We have already 'loaned' a large number of laptops to pupils and if your child needs similar support - please contact us immediately by emailing the school at the address below or by contacting Mrs Nerys Vaughan via VaughanN9@hwbcymru.net

See the update on our website also to download the latest version of Microsoft Office 365 with Microsoft Word, Excel, PowerPoint and more without any cost.

Despite the difficulties, there are also opportunities for our pupils to further improve their independent learning skills by persevering and finding ways to solve problems. Of course, if there are difficulties with the work, then please encourage them to send a message to their teachers for support and we will contact your child back to discuss.

WELSHNESS:
Please encourage your child to complete the Welshness challenges Miss Clarke has set for them on SMHW this week. Parents, this is a great opportunity for you to learn more Welsh - go for it with your children!

FREE SCHOOL MEALS:

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Vouchers for use in supermarkets will not be provided by the Welsh Government contrary to previous advice. Instead, each Local Authority is expected to provide a local solution for the distribution of free school meals. From Monday the 27th April, we will be providing a box for a week's packed lunch (which will include food you can prepare for everyday lunch e.g. a loaf of bread, a tin of tuna, ham, cheese, crisps, biscuits etc...) for all pupils that are eligible for FSM. We are offering to deliver these on the Monday of each week. If you want to receive a box for week's packed lunch, then complete the questionnaire for every child from Bryn Tawe you wish to apply for: https://bit.ly/DosbPYD-FSMSdelivery . If you already receive packs from us, you do not need to complete the questionnaire again.

EMERGENCY CHILDCARE:
If you need to apply for emergency childcare during the week, then please contact me via my email - DaviesS456@hwbcymru.net to discuss further.

In addition, we offer weekend provision for **critical workers working in the blue light services, or for healthcare workers to be this service** (single parent or family where both parents work in both fields) here). If you anticipate having to use this service, please complete this questionnaire (https://bit.ly/GwarchodPenwythnos-WeekendChildcare) by 12:00 on the Thursday BEFORE the weekend you need childcare.

COMMUNICATING WITH PARENTS:
We will continue to text our parents with a link to the website to share important messages - please check our website regularly for any updates. Follow the school on twitter via @bryntawe, as there is a lot of information being shared here, as well as the numerous accounts run by different departments and year groups. We are currently open every day of the week providing emergency childcare, you are therefore welcome to call us to discuss as necessary.

Finally, the best thing we can all do to play our part in fighting the virus is to follow the latest advice from the NHS https://bit.ly/C-19GIG and NHW https://bit.ly/icc-coronavirus - to support your health and that of your family during this unprecedented and worrying time. Download the Covid-19 tracker on this website to support the Government in tracking cases of Covid-19: https://covid.joinzoe.com/ . Stay safe.

Kind regards,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies